**Abermaw / Bermo – Abaty Cymer**




Dechreuodd Abermaw fel anheddiad pysgota bach ac anghysbell. Yn y 1750au daeth adeiladu llongau yn grefft boblogaidd, ac erbyn 1770 roedd y dref wedi hen sefydlu fel porthladd bach, gyda'r rhan fwyaf o'i masnach yn seiliedig ar ddiwydiant gwlân Meirionnydd. Dyfnwyd yr harbwr ac adeiladwyd cei newydd yn 1802, ac agorwyd y rheilffordd yn 1867, gan ddod â mwy o bobl i Abermaw nag erioed o'r blaen.

**Lleoliadau Stampiau:** Abaty Cymer

Cyfarwyddiadau:

1. Dechreuwch yng Nghaffi Tŷ'r Baddon, Abermaw wrth yml maes parcio'r promenâd ac ewch ymlaen i'r harbwr. Mwynhewch y golygfeydd gwych o'r Draphont, Fairbourne a'r mynyddoedd y tu hwnt. Cerddwch o dan bont y rheilffordd a throwch i'r dde i fyny'r allt (gan basio'r Last Inn) i fyny Teras Parkington am tua 300m a chroeswch y ffordd i Draphont a llwybr troed Abermaw.



Agorwyd Traphont Abermaw ym 1867 ac mae'n draphont rheilffordd bren un trac rhestredig Gradd II* ar draws aber afon Mawddach. Mae'n 820m o hyd, a'r unig draphont fawr a adeiladwyd o bren sy'n dal i gael ei defnyddio'n rheolaidd ym Mhrydain.

2. Dilynwch y llwybr troed (a'r trac) i yml gorsaf Morfa Mawddach gan droi i'r chwith i Lwybr Mawddach (mae toiledau ar gael yma).

3. Mae Llwybr Mawddach yn 9.5 milltir o hyd ac yn eiddo i Barc Cenedlaethol Eryri. Mae wedi'i farcio'n glir a gellir ei ddilyn yn hawdd. Mae'n eitha wastad, mae ganddo arwyneb cymharol wastad ac am y rhan fwyaf o'i hyd mae o leiaf 3m o led, ac felly mae'n addas ar gyfer cerddwyr, beicwyr a defnyddwyr cadeiriau olwyn.

Mae'r rhan fwyaf o'r aber wedi'i restru fel safle o ddiddordeb gwyddonol arbennig, mae dwy warchodfa RSPB (Taicynhaeaf ac Arthog), a llu o safleoedd hanesyddol wrth i chi gerdded drwy'r dirwedd hardd hon. https://www.rspb.org.uk/reserves-and-events/reserves-a-z/mawddach-valley-arthog-bog/

4. Ar ben gorllewinol Llwybr Mawddach mae ardal gwarchodfa natur Cors Arthog sy'n Safle o Ddiddordeb Gwyddonol Arbennig (SoDdGA). Un o'r darnau sy'n weddill o gors gyforgor a fyddai unwaith wedi gorchuddio llawer o Aber Mawddach cyfagos ac yn lle gwych i weld blodau, gloÿnnod byw, gweision neidr ac adar hardd a phrin.

5. Gellir ymuno â Llwybr Mawddach i Ddolgellau, tref farchnad brydferth, mewn sawl man fel Arthog, Penmaenpool/Taicynhaeaf, a Phont y Wernddu. Mae gan y llwybr nifer o fannau picnic ac mae'n gorffen yn Nolgellau.

6. Ym Mhenmaenpool, wrth ymyl Llwybr Mawddach, mae Pont Dollau a bwthyn eiconig Penmaenpool; pont bren hanesyddol a adeiladwyd ym 1879 i gymryd lle croesfan fferi. Mae'n croesi Afon Mawddach, gan gysylltu ffyrdd yr A493 a'r A496. Mae'r bont wedi'i rhestru Gradd II ac mae'n adnabyddus am ei dyluniad a lleoliad hardd gyda golygfeydd godidog.

7. Mae toiledau ar gael ger y Pont Doll a'r cyfle i orffwys / cael lluniaeth yng Ngwesty George III.

8. O Benmaenpool mae Llwybr Mawddach yn parhau am bellter o 2.4 milltir, gan groesi Afon Winion a'r A493 cyn rhedeg yn gyfochrog ag Afon Winion i Marian Mawr (man agored a meysydd chwarae) Dolgellau.

9. Dolgellau yw prif ganolfan dringwyr Cadair Idris. I'r gogledd mae ystâd Dolmelynllyn.

10. O Marian Mawr ewch i Eglwys y Santes Fair drwy droi i'r dde drwy'r maes parcio ac i'r dde eto i Gwyndaf Evans Motors cyn troi i'r chwith i Marian Road sy'n ymuno â Lombard Street.

Mae'r Eglwys yn adeilad rhestredig Gradd II sy'n sefyll ar safle un canoloesol, yn dyddio'n ôl i o leiaf 1254. Mae'r eglwys bresennol yn brin (i Gymru) gan ei bod yn dyddio o'r cyfnod Sioraidd cynnar. Ar agor: 1af Ebrill i 30ain Medi, 9.30yb tan 4.00yp. 1af Hydref i 31ain Mawrth, 9.30yb tan 2.00yp Rhagor o wybodaeth

11. O eglwys Santes Fair, dychwelwch i Marian Mawr, trowch i'r dde i Bont Afon Winion (Ffos y Felin) ac i'r chwith dros y bont i Ffordd Bala. Yn y gyffordd, trowch i'r chwith yna'r tro cyntaf i'r dde i Ffordd Pen y Cefn.

12. Cerddwch i fyny Ffordd Pen y Cefn am 750m cyn troi i'r chwith wedi'i arwyddo 'Golf Club' i lawr lôn wledig gul (gyda Choed Pen y Cefn ar y dde). Ar ddiwedd y lôn dilynwch y llwybr cyhoeddus i lawr yr allt tan dod i ffordd ac ymlaen i gerllaw pont Afon Mawddach (Pont Llanelltyd). Trowch i'r dde cyn y maes parcio a cherddwch ar hyd y trac i Abaty Cymer.



**Mynachlog Sistersaidd adfeiliedig a sefydlwyd ym 1198 yw Abaty Cymer. Fe'i sefydlwyd dan nawdd Maredudd ap Cynan, ŵyr i Owain Gwynedd. Yr abaty, a gysegrwyd i'r Forwyn Fair, oedd yr unig fynachlog yn rhanbarth Meirionnydd.** Rhagor o wybodaeth

13. Ewch yn ôl i'r ffordd a throwch i'r dde i Bont Llanelltyd. Ar ddiwedd y bont, ewch ymlaen am 150m i'r fynwent gan droi i'r dde i lawr trac. Dilynwch y trac am 120m a throwch i'r chwith i ffordd yr A470. Ewch i mynwent Eglwys Illtud Sant sy'n dyddio'n ôl i'r ddeuddegfed ganrif.

14. O Eglwys Illtud Sant trowch i'r chwith ac ewch ymlaen i gylchfan yr A470. Trowch i'r dde i'r A496 tuag at Abermaw a'r arhosfan bws T3 (gwiriwch yr amserlen bob amser).

https://mawddachtrail.co.uk

http://dolgellaucycles.co.uk/bike-hire.html

## Argymhelliad yr awdur

Mae'r rhan fwyaf o Lwybr Mawddach i Dolgellau yn dilyn llwybr troed y ceir mynediad llawn iddo, felly mae llogi beic yn opsiwn gwych ar gyfer y diwrnod hwn. Mae yna arweinlyfr ar gyfer Llwybr Mawddach hefyd sy'n adrodd hanes yr ardal. Gellir dilyn y llwybr i'r naill gyfeiriad neu'r llall.